Ffôn: 01824 706000 www.taisirddinbych.co.uk

# Crynodeb o Fuddsoddiad Tai Sir Ddinbych 2023-24

Defnyddir yr incwm o'n rhenti yn ei gyfanrwydd i ariannu gwaith Tai Sir Ddinbych. Gelwir hwn yn Gyfrif Refeniw Tai (CRT). Nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid o Dreth y Cyngor ac nid ydym chwaith yn rhoi cymhorthdal i wasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei reoli'n gaeth er mwyn sicrhau fod incwm o'ch rhenti yn cael ei ddefnyddio i reoli, cynnal a chadw a chynyddu ein stoc dai a thir yn unol â'n Cynllun Busnes CRT. Rydym hefyd wedi derbyn arian Llywodraeth Cymru (LlC) i gefnogi a chynnal ein stoc.



Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

## Cynnydd rhent blynyddol

Mae'r penderfyniad i gynyddu ein rhent wythnosol eleni, ac o faint, wedi'i wneud ar ôl ystyriaeth ofalus gan ein bod yn deall pa mor anodd yw pethau yn ariannol i aelwydydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod prisiau'n codi hefyd yn effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau a buddsoddi yn ein cartrefi.  Rydym yn wynebu costau cynyddol ym mhob agwedd o'n gwaith.

## Buddsoddi yn ein Cartrefi

Mae hyn i gyd yn digwydd wrth geisio mynd i'r afael â rhywfaint o oedi gyda'n rhaglenni oherwydd nad oeddem yn gallu gweithio yng nghartrefi teuluoedd yn ystod y pandemig. Wrth i ni geisio dal i fyny gyda gwahanol raglenni, fel ailwampio ceginau ac ystafelloedd ymolchi, a wyddwn sy'n bwysig i lawer o'n tenantiaid, mae angen i ni hefyd barhau i sicrhau bod ein cartrefi yn ddiogel i fyw ynddynt felly mae gwaith costau uchel fel gosod toeau newydd a rendro allanol yn gorfod parhau. Rydym hefyd eisiau cyflymu'r gwaith o ddarparu cartrefi sy'n fwy effeithiol o ran ynni a systemau gwresogi mwy modern. Gwyddom fod hwn yn broblem fwy rŵan gyda'r cynnydd sylweddol mewn costau ynni.

Heb gynnydd rhent blynyddol, byddai gennym lawer llai o arian bob blwyddyn gan y byddai'r costau yn cynyddu ond nid ein hincwm. Eleni, oherwydd chwyddiant uchel iawn, rydym wedi penderfynu cynyddu ein rhent wythnosol o 5%. Fodd bynnag, dim ond hanner y gyfradd chwyddiant gyfredol yw hyn.

Gwyddom y byddwn ar ein colled yn nhermau beth allwn ni ei wneud y flwyddyn nesaf gan y bydd costau yn parhau i godi yn fwy nag ein hincwm fodd bynnag rydym eisiau cydbwyso rheoli ein cyllidebau gyda chefnogi teuluoedd cymaint ag y gallwn.

Byddai Llywodraeth Cymru wedi ein caniatáu i gynyddu'r rhent o 6.5% (yn Lloegr mae'r cynnydd yn 7%) ond rydym wedi penderfynu bod 5% yn rhoi cydbwysedd gwell. Mae'r penderfyniad hwn, er ei fod ond yn 1.5%, wedi costio ni oddeutu £250,000 ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar gyfer bob blwyddyn yn y dyfodol hefyd gan na allwn adfer y golled incwm hon.

## Gwerth am arian

Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein harian yn dda. Fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau roedd angen i ni arddangos pa mor dda rydym yn rheoli ein harian. Roeddem yn gallu dangos ein bod yn buddsoddi cymaint o'n hincwm yn ôl i'n cartrefi ag y gallwn a'n bod yn gwneud hyn gyda'r costau gweithredu isaf posibl.

## Fforddiadwyedd

Mae angen i ni hefyd edrych ar fforddiadwyedd ein rhenti. Rydym wedi edrych ar y wybodaeth ar yr incwm cyfartalog yn Sir Ddinbych gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac wedi defnyddio fformiwla Rhent Byw i'n galluogi ni i fesur ein rhenti wythnosol a gwneud yn siŵr eu bod yn fforddiadwy o'i chymharu ag incymau. Cafodd y model Rhent Byw ei fabwysiadu gan Sefydliad Joseph Rowntree sy'n sefydliad ymchwil uchel ei barch yn y DU.

## Gwybodaeth bellach

Rhowch wybod i ni os hoffech fwy o wybodaeth ar sut ydym yn cyfrifo'r cynnydd rhent, sut ydym yn gwario ein harian a fforddiadwyedd ein rhent.

## Gweithio gyda chi

Yn y gwanwyn eleni, rydym yn bwriadu trefnu sesiwn ar-lein i edrych ar sut ydym yn rheoli ein harian. Rhowch wybod i ni os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r sesiwn hon gan ei fod yn hanfodol ein bod yn gallu gwrando ar brofiadau ein tenantiaid. Anfonwch e-bost atom ni ar tai@sirddinbych.gov.uk i gofrestru.

## Cyngor a chefnogaeth

I gloi, os oes arnoch angen unrhyw gyngor a chefnogaeth gyda materion ariannol yr aelwyd rhowch wybod i ni. Gobeithio eich bod yn ymwybodol ein bod yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i roi cymorth pwrpasol i denantiaid y Cyngor waeth beth yw eu hamgylchiadau teuluol. Mae hyn yn cynnwys cymorth hanfodol gyda deall biliau ynni.

## Cyllideb Y Cyfrif Refeniw Tai: 2023/24 Cyngor Sir Ddinbych

| | Gwariant | Cyllideb Arian Parod £'000 | Cyfartaledd Yn Wythnosol Yr Eiddo |
|---|---|---|---|
| | **Arolygu a Rheoli:** Rheoli eiddo, gan gynnwys dyraniadau, casglu rhenti a phob gwasanaeth cefnogi (er enghraifft gwasanaethau cyllid, personél, a chyfreithiol). | 3,718 | £21.65 |
| | **Cynnal a Chadw:** Gwaith wedi'i raglennu (er enghraifft, cynnal a chadw offer nwy) a phob atgyweirio o ddydd i ddydd. | 6,023 | £35.08 |
| | **Cyfanswm - Rheoli a Chynnal a Chadw** | 9,741 | £56.73 |
| | **Tailadau Benthyca:** Ad-daliadau prifsymiau a llogau ar fenthyciadau ar gyfer cyllido gwelliannau a gwaith cyfalaf mewn blynyddoedd blaenorol. | 7,471 | £43.51 |
| | Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 147 | £0.86 |
| | **Cyfanswm Gwariant** | 17,359 | £101.10 |

| | Incwm | Cyllideb Arian Parod £'000 | Cyfartaledd Yn Wythnosol Yr Eiddo |
|---|---|---|---|
| | **Rhent (net o leoedd gwag):** Incwm o eiddo danddaliadaeth yn ystod y flwyddyn. | 17,659 | £102.85 |
| | Taliadau Gwasanaeth | 383 | £2.23 |

| | Incwm (parhau) | Cyllideb Arian Parod £'000 | Cyfartaledd Yn Wythnosol Yr Eiddo |
|---|---|---|---|
| | Incwm Arall: Garejys yn cael eu gosod i denantiaeth, yn bennaf. | 338 | £1.97 |
| | Cyfanswm Incwm | 18,380 | £107.05 |
| | Gweddill / Diffyg (-) am y Flwyddyn | 1,021 | £5.95 |
| | LLAI Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw. | 1,943 | £11.32 |
| | Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 2,158 | £12.57 |
| | Balans ar ddiwedd y flwyddyn | 1,235 | £7.20 |

Dyma ychydig enghreifftiau o'r ffordd yr ydym wedi buddsoddi yn ein heiddo dros y 6 mlynedd diwethaf:

1,350 o systemau gwresogi newydd

605 o doeau newydd

435 o ffenestri newydd

2,550 eiddo wedi'i baentio'n allanol

165 solar PV a batri

975 ceginau ac ystafelloedd ymolchi

582 eiddo wedi'u rendro

165 gosodiadau pwmp gwres ffynhonnell aer

£2.4 million mewn addasiadau anabl

Rydym hefyd wedi buddsoddi: £1.9 million ar welliannau i ystadau a chymdogaethau gan gynnwys 17 o ardaloedd chwarae newydd.

## Wyddoch chi?

Mae Tai Sir Ddinbych yma I helpu! Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:

- Cymorth digidol a mynd ar-lein.
- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian.
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor.
- Rheoli ôl-ddyledion a rheoli eich tenantiaeth.
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref.
- Rheoli dyledion.
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim.

Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01824 706000
Ebost: tai@sirddinbych.gov.uk
Ar-lein: www.taisirddinbych.co.uk
Facebook: Tai Sir Ddinbych

